CYNGOR SIR PENFRO

PEMBROKESHIRE COUNTY COUNCIL

CYFLOGI PLANT

IS-DDEDDFAU CYNGOR SIR PENFRO

AR GYFER CYFLOGI PLANT 2007

IS-DDEDDFAU CYNGOR SIR PENFRO

Wedi'u gwneud y 19eg Hydref 2007

Yn dod i rym .....

Mae Cyngor Sir Penfro, wrth arfer y pwerau a roddir iddo gan Adrannau 18(2) a 20(2) Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933[1], trwy hyn yn gwneud yr is-ddeddfau canlynol:

Cyfeirio a dechrau

1. Gellir cyfeirio at yr is-ddeddfau hyn fel Is-ddeddfau Cyngor Sir Penfro ynghylch Cyflogi Plant [2007] a byddant yn dod i rym y [..... 200].

Dehongliad a chwmpas

2. Yn yr Is-ddeddfau hyn, oni bai fod y cyd-destun yn mynnu'n wahanol:

ystyr "yr awdurdod" yw Cyngor Sir Penfro;

ystyr "plentyn" yw rhywun nad yw eto'n hŷn na'r oed gorfodol ar gyfer mynd i'r ysgol fel y mae wedi'i ddiffinio yn Adran 8 o Ddeddf Addysg 1996;

mae "cyflogi" yn cynnwys cymorth mewn masnach neu waith a wneir am elw, pa un a dderbynnir tâl ai peidio am y cymorth hwnnw;

ystyr "gwaith ysgafn" yw gwaith means work which, on account of the inherent nature of the tasks which it involves and the particular conditions under which they are performed:-

(a) nad yw'n debygol y gallai niweidio diogelwch, iechyd neu ddatblygiad plant;

ac

(b) na fyddai'n eu rhwystro rhag bod yn bresennol yn yr ysgol, rhag cymryd rhan mewn profiad gwaith yn unol ag Adran 560 o Ddeddf Addysg 1996, neu eu gallu i elwa ar yr hyfforddiant a geir neu, fel y gallai fod, y profiad a geir;

oherwydd natur hanfodol y tasgau a'r amodau arbennig sy'n rhan o'r gwaith hwnnw

mae "rhiant" yn cynnwys unrhyw un sydd, yr adeg o dan sylw, â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn o fewn ystyr Adran 3 o Ddeddf Plant 1989;

[1] 1933 c 12.

mae "lle cyhoeddus" yn golygu unrhyw barc cyhoeddus, gardd, mainc glan môr neu orsaf reilffordd ac unrhyw dir y gall y cyhoedd fynd iddo yr adeg o dan sylw pa un a ydynt yn talu ai peidio;

mae "stryd" yn cynnwys unrhyw briffordd ac unrhyw bont, ffordd, lôn, llwybr cerdded, sgwâr, cwrt, gwyli neu dramwyfa gyhoeddus, pa un a yw'n ffordd drwodd ai peidio;

mae "masnachu ar y stryd" yn cynnwys gwerthu papurau newydd, matsis, blodau a phethau eraill, chwarae, canu neu berfformio am elw, duo esgidiau a mathau eraill o waith tebyg a wneir mewn unrhyw stryd neu le cyhoeddus;

ystyr "blwyddyn" heblaw ar gyfer mynegi oedran, yw cyfnod o ddeuddeg mis sy'n dechrau'r 1af o Ionawr.

Cyflogi Gwaharddedig

3. Ni cheir cyflogi plentyn o unrhyw oedran:-

(a) mewn sinema, theatr, discotec, neuadd ddawnsio neu glwb nos, heblaw mewn cysylltiad â pherfformiad a roddir gan blant yn unig[2];

(b) i werthu neu ddanfon alcohol, heblaw mewn cynwysyddion wedi'u selio;

(c) i werthu llaeth/llefrith;

(d) i ddanfon oeliau tanwydd;

(e) mewn cegin fasnachol;

(f) i gasglu neu ddidoli sbwriel;

(g) mewn unrhyw waith sy'n uwch na thri metr o'r ddaear neu, gyda gwaith o dan do, yn uwch na thri metr o'r llawr;

(h) mewn gwaith sy'n cynnwys cysylltiad niweidiol gyda chyfryngau ffisegol, biolegol neu gemegol;

(j) mewn gwaith sy'n cynnwys cysylltiad â deunydd ar gyfer oedolion neu mewn sefyllfaoedd sydd am y rheswm hwn rhyw fodd arall yn anaddas ar gyfer plant;

(k) i werthu dros y ffôn;

[2] Nid yw hyn yn rhwystro plant rhag cymryd rhan mewn perfformiadau dan amodau trwydded a roddir yn unol â Deddf Plant a Phobl Ifanc 1963, a'r Rheoliadau cysylltiedig

(l) mewn unrhyw ladd-dy neu yn y rhan honno o unrhyw siop cigydd neu safle arall cysylltiedig â lladd da byw, cigyddiaeth, neu baratoi carcasau neu gig ar gyfer eu gwerthu;

(m) yn gynorthwyydd mewn ffair neu arced ddifyrion neu unrhyw safle arall a ddefnyddir i ddibenion difyrrwch cyhoeddus gyda pheiriannau awtomatig, gemau hap neu sgil neu ddyfeisiau tebyg;

(n) i ofalu'n bersonol am breswylwyr unrhyw gartref gofal preswyl neu gartref nyrsio oni bai fod oedolyn cyfrifol yn eu goruchwylio.

Cyflogi plant 14 oed a throsodd a ganiateir

4. Ceir cyflogi plentyn 14 oed neu drosodd mewn gwaith ysgafn yn unig.

Cyflogi plant 13 oed a throsodd a ganiateir

5. Ni cheir cyflogi plentyn 13 oed heblaw mewn gwaith ysgafn mewn un neu ragor o'r dosbarthiadau canlynol:

(a) gwaith ffermio neu arddio;

(b) danfon papurau newydd, cyfnodolion a deunydd printiedig arall, a chasglu tâl am y cyfryw bethau, yn ôl gofynion Is-ddeddf 3(i);

(c) gwaith siop, yn cynnwys llenwi silffoedd;

(d) siopau trin gwallt;

(e) gwaith swyddfa;

(f) golchi ceir gyda llaw mewn sefyllfa breswyl breifat;

(g) mewn caffi neu dŷ bwyta;

(h) mewn stablau marchogaeth

a

(i) gwaith domestig mewn gwestai a sefydliadau eraill sy'n cynnig llety.

Cyflogi cyn ysgol

6. Yn unol â gofynion eraill yr Is-ddeddfau hyn, gellir cyflogi plant am hyd at un awr cyn dechrau oriau ysgol unrhyw ddydd y mae'n rhaid iddynt fynd i'r ysgol.

Amod(au) ychwanegol

7. Ni cheir cyflogi unrhyw blentyn mewn unrhyw waith y tu allan oni bai ei fod yn gwisgo dillad ac esgidiau addas.

Hysbysu cyflogaeth a hawlenni cyflogi

8. O fewn un wythnos o gyflogi plentyn, mae'n rhaid i'r cyflogwr anfon hysbysiad ysgrifenedig i'r Awdurdod sy'n datgan:-

   (a) ei (h)enw a chyfeiriad ei hun;

   (b) enw, cyfeiriad a dyddiad geni'r plentyn;

   (c) yr oriau a'r dyddiau y mae'r plentyn i'w gyflogi, y gwaith y mae'r plentyn yn mynd i wneud, manylion y dasg o dan sylw ac, os yw'n wahanol i (a) uchod, y lle y bydd yn gweithio ynddo;

   (d) datganiad o ffitrwydd y plentyn i weithio, ac o gymeradwyo cyflogi'r plentyn, wedi ei gwblhau gan rieni'r plentyn;

   (e) manylion yr ysgol y mae'r plentyn yn ddisgybl cofrestredig ynddi;

   (f) datganiad i'r perwyl bod asesiad risg priodol wedi ei wneud gan y cyflogwr a

   (g) dau lun fel lluniau passport o'r plentyn wedi eu harwyddo ar y cefn gan y plentyn a'i gyflogwr.

9. Lle bynnag, wedi derbyn hysbysiad, a'r lluniau fel lluniau pasport y cyfeirir atynt yn 8 (g) uchod, mae'r Awdurdod Lleol yn fodlon:-

   (a) bod y cyflogi a fwriedir yn gyfreithlon:

   (b) na fyddai perygl i iechyd y plentyn, ei les na'i allu i elwa'n llwyr ar ei addysg; a

   (c) bod y plentyn yn addas i wneud y gwaith y mae i'w gyflogi ar ei gyfer,

   Bydd yn rhoi i'r plentyn hawlen gyflogi y bydd rhaid i'r cyflogwr ei chadw'n ddiogel yn y gweithle a'i chyflwyno ar gyfer ei harchwilio pan fydd Swyddog awdurdodedig o'r Awdurdod yn gofyn iddo/iddi wneud hynny, a bydd yn rhoi i'r plentyn gerdyn adnabod ffotograffig gyda llun ac enw'r plentyn arno a'r dyddiad dosbarthu.

10. Cyn dosbarthu hawlen gyflogi gall Awdurdod Lleol fynnu bod y plentyn yn cael archwiliad meddygol.

11. Bydd yr hawlen gyflogi yn datgan:

   (a) enw, cyfeiriad a dyddiad geni'r plentyn;

(b) yr oriau a'r dyddiau y mae'r plentyn i'w gyflogi, y gwaith y mae'r plentyn i'w gyflogi ynddo, manylion y dasg o dan sylw a'r lle y bydd yn gweithio ynddo;

(c) bod y plentyn i beidio â gweithio mwy na deuddeg awr mewn unrhyw wythnos y mae'n rhaid iddo fynd i'r ysgol ynddi.

12. Gellir cyflogi plentyn yn unol â'r manylion ar ei hawlen gyflogi yn unig.

13. Gall Awdurdod Lleol newid hawlen gyflogi'r plentyn o bryd i'w gilydd pan ddaw cais oddi wrth gyflogwr.

14. Gall Awdurdod Lleol unrhyw amser ddirymu hawlen gyflogi plentyn os oes ganddo reswm da dros gredu:-

(a) bod y plentyn yn cael ei gyflogi'n anghyfreithlon, neu

(b) fod ei iechyd, lles a gallu i elwa ar ei addysg yn dioddef neu'n debygol o ddioddef o ganlyniad i'r cyflogi

15. Mae'n rhaid i blentyn gyflwyno ei gerdyn adnabod ffotograffig ar gyfer ei archwilio pan fydd Swyddog awdurdodedig o'r awdurdod neu Swyddog o'r Heddlu yn gofyn iddo wneud hynny.

Masnachu ar y Stryd

16. Ni chaiff unrhyw blentyn o dan 14 oed gymryd rhan mewn masnach ar y stryd ac ni chaiff plentyn 14 oed neu drosodd gymryd rhan mewn masnach ar y stryd oni bai ei fod wedi ei gyflogi i wneud hynny gan ei riant, mewn cysylltiad â busnes adwerthu'r rhiant ac o dan oruchwyliaeth uniongyrchol y rhiant. .

17. Dirymir trwy hyn yr Is-ddeddfau ar gyfer cyflogi plant [a masnachu ar y stryd] a wnaethpwyd gan Gyngor Sir Dyfed y 9fed dydd o Dachwedd 1979 a'u cadarnhau gan yr Ysgrifennydd Gwladol y 9fed dydd o Ionawr 1980.

Rhoddwyd **SÊL GYFFREDIN**

CYNGOR SIR PENFRO

ar hwn yng ngŵydd:-

Llofnodydd awdurdodedig

Rhif Sêl.

Cadarnheir yr Is-ddeddfau trwy hyn gan **GYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU** y ..... 200.. a byddant yn dod i rym y ..... 200..

Llofnod

NODYN O EGLURHAD

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Is-ddeddfau)

Mae'r Is-ddeddfau hyn yn rheoli'r mathau o waith y gellir cyflogi plant o dan oed ymadael â'r ysgol ynddynt (Is-ddeddfau 3 – 5), ac amodau eraill ar eu cyflogi. Yn rhinwedd Rheoliadau Plant (Eu Hamddiffyn yn y Gwaith) 2000, bydd yr hawlen gyflogi yn mynnu bod rhaid i'r plentyn beidio â gweithio mwy na deuddeg awr mewn unrhyw wythnos y mae'n rhaid iddo fynd i'r ysgol ynddi (Is-ddeddfau 9 – 16). Maent yn amodi ar gyfer profion ar ffitrwydd y plentyn i'w gyflogi (Is-ddeddf 10) ac ar gyfer dosbarthu hawlenni cyflogi (Is-ddeddf 11), nodi'r gwaith y gellir cyflogi'r plentyn ynddo a'i oriau gwaith. Gosodir gofynion ychwanegol ar gyflogi plant mewn masnach ar y stryd, y mae angen Trwydded Awdurdod Lleol ar ei gyfer (Is-ddeddfau 16 – 20).

Nid yw'r Is-ddeddfau hyn yn ddatganiad hollgynhwysol o'r gyfraith mewn perthynas â chyflogi plant a dylid eu darllen ar y cyd â deddfwriaeth arall sy'n ymwneud â gwaith gwaharddedig, oriau gwaith a masnach ar y stryd yn arbennig.

Yn rhinwedd Adran 560 o Ddeddf Addysg 1996, nid yw deddfiadau sy'n ymwneud â gwahardd neu reoli cyflogi plant yn berthnasol i blant sy'n ymgymryd â phrofiad gwaith o fewn ystyr y Ddeddf. Mae "deddfiad" i'r diben hwn yn cynnwys Is-ddeddfau sy'n dod i rym gyda deddfiad, felly nid oes dim yn yr Is-ddeddfau hyn yn berthnasol i brofiad gwaith plentyn.

Cyflogi a Waherddir ac a Ganiateir

Cyfyngir plant 13 oed i'w cyflogi yn y mathau o waith a restrir yn Is-ddeddf 5. Nid yw plant 14 oed a throsodd wedi eu cyfyngu yn y modd hwn, ond maent yn cael gwneud gwaith ysgafn yn unig (Is-ddeddf 4). Mae Is-ddeddf 3 yn rhestru nifer o fathau o waith sydd wedi eu gwahardd i blant, hyd yn oed pe byddent yn waith ysgafn. Mae llawer o fathau eraill o waith neu dasgau penodol wedi eu gwahardd gan ddeddfwriaeth arall, yn cynnwys:-

Deddf Cyflogi Merched, Plant a Phobl Ifanc 1920, sy'n gwahardd cyflogi plant mewn unrhyw "fenter ddiwydiannol", yn cynnwys pyllau a chwareli, diwydiant gweithgynhyrchu, adeiladu a chludo teithwyr ar ffordd, rheilffordd neu ddyfrffordd fewndirol (Adran 1(1));

Deddf Amaeth (Darpariaethau Diogelwch, Iechyd a Lles) 1956, sy'n deddfu mai trosedd yw peri neu ganiatáu i blentyn deithio ar gerbyd, peiriant neu offeryn amaethyddol (Adran 7);

Deddf Swyddfeydd, Siopau ac Anheddau Rheilffyrdd 1963, sy'n amodi na chaiff unrhyw bobl ifanc lanhau peiriannau pe byddai gwneud hynny yn eu rhoi mewn perygl o gael eu hanafu (Adran 18);

Deddf Betio Hapchwarae a Loteriau 1962, sy'n gwahardd cyflogi pobl o dan 18 i weithredu unrhyw drafodion betio neu mewn Swyddfa Fetio drwyddedig (Adran 21);

Deddf Drwyddedu 1964, sy'n gwahardd cyflogi plant ym mar safle trwyddedig (Adran 170) a Deddf Drwyddedu (Caniatâ Achlysurol) 1983; sy'n gwahardd unrhyw un o dan 18 oed rhag gwerthu neu weini alcohol ar safleoedd sydd wedi eu hawdurdodi yn unol â'r Ddeddf (paragraff 5(1) o'r Atodiad);

Deddf Llongau Masnach 1970, sy'n gwahardd cyflogi unrhyw un o dan yr oed lleiaf ar gyfer ymadael â'r ysgol ar long sydd wedi ei chofrestru yn y DU, ac eithrio fel y caniateir gan Reoliadau a wneir yn unol â'r Ddeddf (Adran 51); a

Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chario 1992, sy'n gwahardd plant rhag trafod unrhyw lwyth sy'n debygol o beri anaf iddynt.

Sylwer nad yw hon yn rhestr gyflawn.

Mae Rheoliadau Plant (Perfformiadau) 1986 yn amodi na chaiff unrhyw blentyn sy'n cymryd rhan mewn perfformiad y mae Adran 37 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1963 yn mynnu bod angen trwydded ar ei gyfer gael ei gyflogi mewn unrhyw waith arall ar ddydd neu ddyddiau'r perfformiad hwnnw neu'r diwrnod canlynol.

Masnachu ar y Stryd

Mae Is-ddeddf 16 yn caniatáu cyflogi plant sy'n 14 oed neu drosodd gan eu rhieni mewn masnach ar y stryd.

Rheolir masnachu ar y stryd hefyd gan Adran 20 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933, sy'n amodi na chaiff unrhyw blentyn gymryd rhan mewn masnach ar y stryd oni bai ei fod wedi ei awdurdodi i wneud hynny gan Is-ddeddfau'r Awdurdod Lleol. Gellir rhoi'r cyfryw hawl yn unig ar gyfer plant 14 oed neu drosodd sydd wedi eu cyflogi gan eu rhieni. Mae Adran 20 yn awdurdodi hefyd y bydd Is-ddeddfau yn rhagnodi'r dyddiau a'r oriau a'r lleoedd y gall plant gymryd rhan neu gael eu cyflogi mewn masnach ar y stryd.

Cosbau

Mae Adran 21 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933, fel y newidiwyd, yn amodi, ymysg pethau eraill:-

Os yw rhywun wedi ei gyflogi yn groes i Adran 18 o'r Ddeddf, neu i ddarpariaethau unrhyw Is-ddeddfau a wneir yn unol â hi, bydd y cyflogwr ac unrhyw un arall (heblaw'r sawl sydd wedi ei gyflogi) y gellir priodoli'r trosedd i'w weithred neu ddiffyg, yn agored, wedi ei gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy na fydd yn fwy na lefel 3 ar y Raddfa Safonol (£1,000).

Os yw rhywun wedi ei gyflogi yn groes i Adran 20 o'r Ddeddf, bydd y cyflogwr ac unrhyw un arall (heblaw'r sawl sydd wedi ei gyflogi) y gellir priodoli'r trosedd i'w weithred neu ddiffyg, yn agored, wedi ei gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy na fydd yn fwy na lefel 3 ar y Raddfa Safonol (£1,000); bydd rhywun o dan yr oed gorfodol ar gyfer ymadael â'r ysgol sy'n cymryd rhan mewn masnach ar y stryd yn groes i ddarpariaethau Adran 29, neu unrhyw Is-ddeddf a

wneir yn unol â hi, yn agored, wedi ei gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy na fydd yn fwy na lefel 1 ar y Raddfa Safonol (£200).

Crynodeb o'r Oriau Gwaith a Ganiateir

Yr unig amser y caiff cyflogi ddigwydd yw rhwng 7.00 am a 7.00 pm.

Yr unig amserau y caiff rhai 13 a 14 oed weithio yw:-

- Dyddiau ysgol – un awr cyn ac un awr wedi'r ysgol, neu ddwy awr wedi'r ysgol
- Dydd Sadwrn a gwyliau'r ysgol pum awr y dydd
- Dydd Sul dwy awr y dydd
- Dim mwy na 12 awr yr wythnos yn ystod y tymor
- Dim mwy na 25 awr yr wythnos yn ystod y gwyliau

Caiff rhai 15 oed a throsodd weithio:-

- Dyddiau'r ysgol un awr cyn yr ysgol ac un awr wedi'r ysgol, neu ddwy awr wedi'r ysgol
- Dydd Sadwrn a gwyliau'r ysgol wyth awr y dydd
- Dydd Sul dwy awr y dydd
- Dim mwy na 12 awr yr wythnos yn ystod y tymor
- Dim mwy na 35 awr yr wythnos yn ystod y gwyliau